


BTPA British Transport Police Authority

BRITISH TRANSPORT POLICE

# CYNLLUNIAU PLISMONA HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

## 2022-25

# CYNNWYS


Rhagair y Cadeirydd 3
Cyflwyniad y Prif Gwnstabl 4
Ein Hamcanion Strategol 2022-27 6
Ymrwymiadau Rhanbarth C – Cymru 7
Cysylltiadau Rhanbarthol 11


A
E
Yn gwasanaethu pob maes


**Rhanbarth A**
Cymorth Gweithredol Canolog

**Rhanbarth B**
Gogledd
De
TFL

**Rhanbarth C**
Pennine
Cymru
Canolbarth Lloegr
Gorllewin

**Rhanbarth D**
Yr Alban

**Rhanbarth E**
Galluoedd arbenigol



# RHAGAIR Y CADEIRYDD

***Rwyf am gydnabod ymrwymiad a chyfraniad yr holl swyddogion heddlu, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a staff ym mhob adran ac is-adran o'r heddlu sy'n gweithio'n ddiflino, bob dydd, i gefnogi ac amddiffyn y rhai sy'n gweithio ac yn teithio ar y rheilffordd…***




**Ron Barclay-Smith**
Cadeirydd

**E-bost**
Ron.Barclay-Smith@btp.police.uk

**Dilynwch**
@BTPAuthority


**Dyma'r diweddariad olaf o Gynllun Plismona 2022-25 cyn i waith ddechrau yn ddiweddarach eleni ar y cynllun tair blynedd nesaf am y cyfnod 2025 i 2028. Mae'r cylch cynllunio aml-flwyddyn wedi rhoi golwg tymor hwy i ni ac yn ein galluogi i ganolbwyntio'n gyson dros holl gyfnod y cynllun. Rydym yn ddiolchgar i'n rhanddeiliaid o fewn y diwydiant a'r cymunedau ehangach am eu mewnbwn i'r broses.**

Mae cynllun eleni yn ystyried adborth o'r arolygon diweddaraf o staff a theithwyr y rheilffyrdd ac yn parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r troseddau sy'n effeithio ar hyder y rhai sy'n gweithio ac yn teithio ar y rhwydwaith. Wrth i Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig weithio i wneud y defnydd gorau o'i adnoddau yng ngoleuni patrymau teithio newidiol ar ôl y pandemig, bydd yn bwysicach nag erioed sicrhau bod lleisiau'r diwydiant a theithwyr yn cael eu clywed a'u hadlewyrchu yn ein cynlluniau. Mae'r cyfarfodydd rhanddeiliaid blynyddol, a arweinir gan Gomanderiaid Rhanbarthol yr heddlu, yn rhan hanfodol o galendr ymgysylltu â diwydiant Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Rydym bob amser yn gwerthfawrogi eich cyfranogiad yn y cyfarfodydd hyn, a'r syniadau y byddwch yn eu rhannu.

Rydym yn parhau i weithio'n agos o dan gyfarwyddyd yr Adran Drafnidiaeth i sicrhau bod gan Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yr adnoddau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth plismona rheilffordd effeithlon ac effeithiol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed ac yn ymdrechu i leihau'r amhariad ar y rhwydwaith wrth i'r cynlluniau ar gyfer diwygio'r rheilffyrdd barhau i ddatblygu.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'n partneriaid yn y diwydiant am eu mewnbwn i'n newidiadau arfaethedig i'r Model Dyrannu Costau. Wrth gwrs, er nad yw newidiadau i'r mecanwaith codi tâl yn effeithio ar gynlluniau plismona Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, rydym yn parhau i fod yn awyddus i dalu costau plismona rheilffyrdd mewn ffordd sy'n llai cyfnewidiol, yn gliriach, ac yn fwy tryloyw.

Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i'r Prif Gwnstabl Lucy D'Orsi am ei harweinyddiaeth barhaus drwy flwyddyn heriol arall i blismona a'r diwydiant rheilffyrdd. Mae ei hymdrechion i foderneiddio'r heddlu ac i ddatblygu a meithrin gwerthoedd creiddiol Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gadarn. Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymroddedig i'r egwyddorion cynhwysiant a nodir yn y cynllun hwn.

Dylid diolch hefyd i'r arweinwyr rhanbarthol yn Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig am eu cyfraniadau i'r cynllun hwn, gan nodi yn eu geiriau eu hunain sut y byddant yn cyflawni'r cynllun yn eu cyd-destunau lleol. Cysylltwch â nhw, os gwelwch yn dda, neu fy nhîm yn Awdurdod Heddlu Trafinidiaeth Prydeinig, wrth i ni gychwyn ar y rownd gynllunio nesaf.

Yn olaf, ond nid yn lleiaf, rwyf am gydnabod ymroddiad a chyfraniad yr holl swyddogion heddlu, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a staff ym mhob adran ac is-adran o'r heddlu sy'n gweithio'n ddiflino, bob dydd, i gefnogi ac amddiffyn y rhai sy'n gweithio ac yn teithio ar y rheilffordd, ac sy'n ymdrechu i ddiogelu ein seilwaith rheilffyrdd cenedlaethol hollbwysig. Diolch i chi i gyd am eich gwasanaeth hanfodol.

# CYFLWYNIAD Y PRIF GWNSTABL

***Mae ymdrechion Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gefnogi'r diwydiant rheilffyrdd wrth iddo adfer wedi bod yn ganmoladwy. Mae ein timau yn ystwyth ac yn hyblyg – rydym yn gwrando. A gwelaf – ar bob lefel – swyddogion a staff Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn datrys problemau trwy weithio ag eraill.***




**Lucy D'Orsi QPM**
Prif Gwnstabl

**E-bost**
lucy.dorsi@btp.police.uk

**Dilynwch**
@BTPChief


**Wrth i ni gyrraedd blwyddyn olaf Cynllun Plismona 2022-25, rwy'n falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran cyflawni'r nodau a osodwyd. Yn wyneb amgylcheddau plismona a rheilffordd digynsail a heriol, mae swyddogion a staff Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi ymddangos bob dydd, ar eu gorau, gan weithio'n agos gyda'n partneriaid yn y diwydiant o'r lefel weithredol i'r gatiau tocynnau i gyflawni ein nodau cyffredin.**

Mae ein gwaith o frwydro yn erbyn trais yn erbyn menywod a merched yn parhau â'i fomentwm, gyda chefnogaeth ein cydweithwyr yn y diwydiant yn ein gyrru ymlaen. Er y gall y newyddion diweddar am fwy o adroddiadau ynghylch troseddau rhywiol ar y rheilffyrdd ymddangos yn frawychus, rwy'n credu'n bersonol ei fod yn adlewyrchu'r cynnydd mewn hyder dioddefwyr yn Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a chefnogaeth y cyhoedd i gael gwared ar y math hwn o drosedd ar ein rheilffyrdd. Gofynasom i'r cyhoedd adrodd amdano ac maent yn gwneud hynny – diolch.

Gwyddom nad yw aflonyddu rhywiol a throseddau rhywiol digyswllt wedi cael eu hadrodd yn ddigonol yn hanesyddol.  Mae gwaith rhagorol ein swyddogion a staff i annog dioddefwyr a gwylwyr i adrodd am droseddau wedi arwain at gynnydd mewn adroddiadau. Rwy'n credu bod hyn, i ryw raddau, yn adlewyrchiad o'r hyder cynyddol, gan deithwyr a'r rhai sy'n gweithio ar y rheilffyrdd, ym mhenderfynoldeb a gallu Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i ymdrin â throseddau rhywiol. Ni fyddwn byth yn goddef brawychu menywod a merched ar ein rhwydwaith, a rhaid iddo beidio â mynd heb ei herio na'i gosbi.

Er bod ein gwaith yn y maes hwn wedi'i ganmol gan Lywodraeth y DU, elusennau, a grwpiau cymunedol, mae cymaint mwy i'w wneud o hyd. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu'r frwydr yn erbyn trais yn erbyn menywod a merched yn ein rôl fel Gwarcheidwaid y Rheilffordd.

Rwy'n parhau i ganolbwyntio ar ein perfformiad, ac rydym wedi cymryd camau breision i'r cyfeiriad cywir, gan ddatrys mwy o droseddau, yn enwedig o ran troseddau rhyw. Fodd bynnag, mae lladradau a throseddau treisgar yn parhau i godi, ac mae angen inni wneud mwy i atal troseddu gyda chymorth y diwydiant.

Rwy'n falch iawn o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â safonau proffesiynol, lle'r ydym wedi gwneud buddsoddiad sylweddol o dros £2 miliwn mewn technoleg ac adnoddau, gan dreblu maint yr adran. Ers lansio'r ymgyrch 'Speak Up' i annog staff a swyddogion i godi llais am ymddygiad nad yw'n teimlo'n iawn, rydym wedi gweld cynnydd o 65% yn nifer y swyddogion a'r staff sy'n mynegi pryderon. Mae hyn yn arwydd hynod gadarnhaol bod ein pobl yn teimlo'n hyderus wrth adrodd am faterion i ni, gan wybod y byddwn yn ymdrin â nhw yn gadarn. Rwy'n falch o arwain heddlu sydd ag ymagwedd dim goddefgarwch tuag at ymddygiad nad yw'n cyrraedd ein disgwyliadau uchel.

Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi y byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ag offeryn cynllunio capasiti newydd. Bydd yr offeryn hwn yn gwneud defnydd effeithiol o amser ac adnoddau. Bydd yn ein galluogi i wella ein gallu i greu amgylchedd gelyniaethus ar gyfer troseddolrwydd, i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed ac i feithrin ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ymhellach.

Ochr yn ochr â hyn, bydd Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i fod ar flaen y gad o ran ein diogelwch gwladol a'n cynlluniau at argyfyngau. Rydym wedi adolygu ein gallu gwrthderfysgaeth i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â bygythiadau heddiw fel yr amlinellir yng Nghofrestr Risgiau Cenedlaethol Llywodraeth y DU. Ar y cyd â'r gwaith hwn, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wreiddio'r argymhellion o Ymchwiliad Arena Manceinion. Mae ein parodrwydd yn hollbwysig er mwyn sicrhau y gallwn amddiffyn y rhai sy'n defnyddio ac yn gweithio ar y rheilffordd.

Gan edrych ymlaen, rydym yn parhau i gydweithio â diwydiant ar ein Prosiect Diogelwch a Phlismona Integredig. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'n cynllun peilot llwyddiannus mewn gorsafoedd prysur a phwysig yn Lloegr i annog cydweithio agosach rhwng Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a phartneriaid trafnidiaeth yng Nghymru. Nid yw hyn yn hawdd ei gyflawni, ond rydym yn benderfynol o wireddu manteision model diogelwch integredig ar gyfer y rheilffordd gan ein bod yn credu y byddai pawb yn fwy diogel.

Er bod y pandemig wedi dod â heriau digynsail i bawb, mae ymdrechion Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gefnogi'r diwydiant rheilffyrdd wrth iddo wella wedi bod yn ganmoladwy. Mae ein timau yn ystwyth ac yn hyblyg – rydym yn gwrando. A gwelaf – ar bob lefel – swyddogion a staff Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn datrys problemau trwy weithio ag eraill.


PRESS TO OPEN




# AMCANION STRATEGOL

- Atal troseddau a diogelu i **leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cael niwed ar y rheilffyrdd**
- Targedu ein hymdrechion i **sicrhau bod nifer llai yn dioddef y troseddau mwyaf difrifol**
- Arloesi a chydweithio â'n partneriaid i **leihau tarfu**
- Meithrin **ymddiriedaeth a hyder** teithwyr a staff rheilffyrdd i drechu troseddoldeb gyda'n gilydd
- **Sicrhau gwerth am arian** trwy fanteisio ar dechnoleg, gan addasu i gwrdd â'r dyfodol
- Adeiladu Heddlu **modern a chynhwysol** lle mae gan ein pobl gyfarpar da, maent yn cael eu harwain yn dda, yn derbyn gofal da ac yn adlewyrchu'r gorau o'n cymunedau

# Rhanbarth C
# **Cymru**



**Uwch-arolygydd Andy Morgan**
Comander Is-ranbarthol Cymru
andrew.morgan@btp.police.uk **Dilynwch** @BTPWales

## Mynd i'r afael â'r troseddau a digwyddiadau hynny (gan gynnwys trosedd casineb) sy'n effeithio fwyaf ar hyder y rhai sy'n gweithio ac yn teithio

- Nifer y troseddau cyffredin (wedi'u dadansoddi yn ôl grŵp troseddau)
- Nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Lefelau bodlonrwydd fel y'u pennir gan yr Arolwg Dioddefwyr Troseddau
- Amseroedd ymateb i ddigwyddiad, wedi'u dadansoddi yn ôl categori (Â Blaenoriaeth / Ar Unwaith)
- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau cysylltiedig â phêl-droed
- Cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu rhanbarthol ymgynghoriadau cyhoeddus
- Cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu rhanbarthol yr Arolwg Staff Rheilffyrdd
- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau casineb (wedi'u dadansoddi fesul ffactor)

## Sicrhau y gall teithwyr a staff weithio a theithio heb gael eu bygwth gan drais

### TRAIS AC YMDDYGIAD YMOSODOL YN ERBYN TEITHWYR

- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer:
  - Trais difrifol
  - Troseddau sy'n cynnwys arfau
  - Lladrad
  - Trefn gyhoeddus
- Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr

### TRAIS AC YMDDYGIAD YMOSODOL YN ERBYN STAFF RHEILFFYRDD, SWYDDOGION A SWYDDOGION CYMORTH CYMUNEDOL YR HEDDLU

- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer trais yn erbyn unigolyn a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a gyflawnir yn erbyn staff rheilffyrdd
- Mathau o ganlyniadau ar gyfer troseddau yn erbyn staff rheilffyrdd
- Gwelliant yng nghanran y mathau o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer staff y rheilffyrdd
- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer ymosodiadau ar swyddogion / Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr

# Rhanbarth C
# **Cymru**

## Lleihau tarfu ar y rhwydwaith trwy gydweithio

- Nifer yr achosion o darfu a'r prif funudau mewn lleoliadau allweddol wedi'u dadansoddi yn ôl categori:
  - Dwyn ceblau
  - Fandaliaeth / lladrad
  - Tresmasu
  - Meddwdod / anhrefn / tresmasu
  - Marwolaethau / anafiadau yn ymwneud â thrên
- Amser adfer y gwasanaeth ar gyfartaledd yn dilyn marwolaeth
- Nifer yr hediadau drôn (yn ôl categori)
- Effaith arbed costau a munudau wedi'u harbed ar gyfer hediadau drôn (hediadau digymell yn unig)
- Adroddiadau ymweliadau safle ar ôl digwyddiad yr Uned Diogelu trwy Ddyluniad ac argymhellion yr ymatebwyd iddynt gan y diwydiant rheilffyrdd

## Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, troseddau casineb ac aflonyddu rhywiol

- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau treisgar yn erbyn menywod a merched (gan gynnwys dadansoddiad o ymgysylltu â dioddefwyr)
- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer digwyddiadau yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol (mesur ar gyfer y cyhoedd a staff rheilffyrdd)
- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau rhywiol a chamdriniaeth ddomestig (gan gynnwys dadansoddiad o ymgysylltu â dioddefwyr)
- Nifer y troseddwyr hysbys sy'n cael eu monitro'n weithredol
- Nifer y ceisiadau am Orchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO), Gorchmynion Risg Rywiol (SRO), Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio (SRO), Gorchmynion Atal (RO) a Gorchmynion Ymddygiad Troseddol (CBO)
- Canran cydymffurfedd â gorchmynion gwahardd ar gyfer troseddwyr a reolir
- Lefelau bodlonrwydd fel y'u pennir gan yr Arolwg Dioddefwyr Troseddau

## Amddiffyn, cefnogi a diogelu pobl sy'n agored i niwed a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu camfanteisio a'u niweidio

- Nifer yr ymgyflwynwyr mynych ac ymgyflwynwyr aml
- Data llinellau cyffuriau yn ôl categori canlyniad
- Nifer yr ymyriadau achub bywyd
- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau stelcio / aflonyddu a chaethwasiaeth fodern

# Rhanbarth C
# **Cymru**




## Creu amgylchedd sy'n elyniaethus i derfysgaeth trwy strategaeth CONTEST

- Cydymffurfedd yn erbyn hyfforddiant arbenigol (canran)
- Nifer y swyddogion mewn swydd yn erbyn sefydliad ar gyfer rolau arbenigol
- Nifer y mewnbynnau ScaN / ACT a gyflwynwyd
- Nifer y staff rheilffordd a gyrhaeddwyd
- Nifer y gweithgareddau Gwella Diogelwch Amddiffynnol a gyflawnwyd yng ngorsafoedd CAT A
- Nifer y digwyddiadau ymarfer a hyfforddi mewnol / amlasiantaeth a gwblhawyd
- Nifer y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a fynychir ddwywaith y flwyddyn







# Cysylltiadau Rhanbarthol

# CYSYLLTIADAU RHANBARTHOL

## Rhanbarth B



**Prif Uwch-arolygydd Chris Casey**
Comander Rhanbarthol, Rhanbarth B
**E-bost** christopher.casey@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPCasey



**Superintendent Nick Sedgemore**
Comander Is-ranbarthol Gogledd Lloegr
**E-bost** nick.sedgemore@btp.police.uk



**Uwch-arolygydd Darren Malpas**
Comander Is-ranbarthol De Lloegr
**E-bost** darren.malpas@btp.police.uk



**Uwch-arolygydd Dominique Ioannou**
Comander Is-ranbarthol Canolbarth Lloegr
**E-bost** dominique.ioannou@btp.police.uk

## Rhanbarth C



**Prif Uwch-arolygydd Sandra England**
Comander Rhanbarthol, Rhanbarth C
**E-bost** sandra.england@btp.police.uk



**Uwch-arolygydd Mark Cleland**
Comander Is-ranbarthol Gorllewin Lloegr
**E-bost** mark.cleland@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPCleland



**Uwch-arolygydd Sue Peters**
Comander Is-ranbarthol Canolbarth Lloegr
**E-bost** sue.peters@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPPeters



**Uwch-arolygydd Dave Rams**
Comander Is-ranbarthol Pennine
**E-bost** david.rams@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPRams



**Uwch-arolygydd Andy Morgan**
Comander Is-ranbarthol Cymru
**E-bost** andrew.morgan@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPWales

## Rhanbarth D



**Prif Uwch-arolygydd Gill Murray**
Comander Rhanbarthol, Rhanbarth D
**E-bost** gillian.murray@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPMurray

*Defnyddiwch y map hwn i ddod o hyd i'r cyswllt ar gyfer eich ardal.*





BTPA
British Transport Police Authority

BRITISH TRANSPORT POLICE

# Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:


## Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

**Ron Barclay-Smith**
Cadeirydd
Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

**E-bost** btpa-enquiries@btp.police.uk

Pencadlys, 25 Camden Road, Llundain, NW1 9LN

**@BTPAuthority**

## Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

**Jennifer Crowther**
Rheolwr Cynllunio Strategol
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

**E-bost** jennifer.crowther@btp.police.uk

Pencadlys, 25 Camden Road, Llundain, NW1 9LN

**@BTP**


**www.btpa.police.uk**

**www.btp.police.uk**